# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-18-08 (p5): 25 Medi 2008**

## Adroddiad ar ymweliad canfod ffeithiau'r Pwyllgor i Ddulyn ar gyfer yr Ardoll Bagiau Siopa Plastig, 14 Gorffennaf 2008

### 1.Cyflwyniad

1.1Cyfeiriwyd deiseb P-03-063, sy'n galw am wahardd bagiau plastig, i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd ar 6 Rhagfyr 2007. Cyflwynwyd y ddeiseb o ganlyniad i brosiect gan BBC Wales, 'If I Ruled Wales', a lansiwyd ym mis Mehefin 2007, oedd yn gwahodd y cyhoedd i awgrymu pa gyfreithiau yr hoffent eu gweld fwyaf yn cael eu pasio yng Nghymru. Y cynnig i wahardd bagiau plastig oedd yr awgrym mwyaf poblogaidd ac fe'i cyflwynwyd fel deiseb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 20 Medi 2007.

1.2 Yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill 2008, dechreuodd y Pwyllgor gymryd tystiolaeth lafar ar y ddeiseb, gan Cadwch Gymru'n Daclus a'r Marine Conservation Society. Cynhaliwyd dwy sesiwn dystiolaeth arall ar 22 Mai a 18 Mehefin, gyda'r British Retail Consortium, y Waste and Resources Action Programme, a'r Carrier Bag Consortium.

1.3 Fel rhan o'i ystyriaeth o'r ddeiseb, roedd y Pwyllgor yn awyddus i gasglu esiamplau o arfer da o ardaloedd oedd wedi gwahardd bagiau plastig a lle'r oedd dewisiadau amgen, megis gwaharddiad gwirfoddol neu ardoll, wedi cael eu cyflwyno. Felly, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymweliad canfod ffeithiau i Ddulyn ar 14 Gorffennaf i gasglu tystiolaeth ynghylch sut a pham y gweithredwyd ardoll, sut mae'n gweithio'n ymarferol a'i effaith saith mlynedd wedi iddo gael ei gyflwyno.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r trafodaethau a'r cyflwyniadau a gynhaliwyd yn ystod yr ymweliad canfod ffeithiau i Ddulyn.

### 2.Trafodaethau o gwmpas y bwrdd gyda swyddogion y llywodraeth

### Cefndir i gyflwyno'r ardoll bagiau siopa plastig

2.1Rhoddodd Pat Macken a Bart Felle, o Uned Atal Gwastraff ac Adfer Adran yr Amgylchedd, Treftadaeth a Llywodraeth Leol, gyflwyniad ar weithredu'r ardoll.

2.2 Cyflwynwyd yr ardoll i fynd i'r afael â'r cynnydd 'dychrynllyd' yn y defnydd o fagiau plastig yn y 1990au, gyda chyfran fawr ohonynt i'w gweld yn amlwg fel ysbwriel wedi iddynt gael eu taflu'n ddiofal gan unigolion. Yr oedd pryder pellach fod ysbwriel amlwg o'r fath yn tanseilio delwedd Iwerddon fel gwlad lan a gwyrdd, y mae'r diwydiant twristiaeth yn y wlad yn dibynnu arni.

2.3 Yr oedd y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 1997 yn cynnwys ymrwymiad i archwilio ffyrdd o annog pobl i beidio â defnyddio bagiau plastig a chomisiynwyd adolygiad ymgynghori i archwilio'r mater ymhellach. Daeth yr adolygiad i ben yn 1999 ac argymhellodd fod ardoll o 5 y cant yn "addas ac yn effeithiol", ond ni wnaeth unrhyw argymhellion o ran a'i ardoll ar yr ochr gyflenwi neu ardoll ar yr ochr werthu fyddai fwyaf addas.

2.4 Dangosodd ymgynghoriad cyhoeddus a lansiwyd yn1999 bod cefnogaeth frwd i gyflwyno ardoll. Cadarnhaodd cyngor cyfreithiol gan yr Undeb Ewropeaidd y byddai ardoll yn dderbyniol mewn egwyddor, yn amodol ar gyfiawnhad amgylcheddol ac ar y ffaith na ddylai swm yr ardoll fod yn anghymesur.

2.5 Penderfynwyd mai dewis cyntaf y Llywodraeth, sef ardoll ar yr ochr gyflenwi, oedd y dewis symlaf a'r dewis oedd yn fwyaf cost-effeithiol i'w weithredu. Er i'r ymgynghorwyr argymell y dylai'r ardoll fod o gwmpas 5 y cant, dewisodd y Gweinidog ardoll o 15 y cant ym mis Rhagfyr 2000. Gwrthodwyd ardoll ar yr ochr gyflenwi yn ddiweddarach, oherwydd anawsterau gyda rhanddeiliaid o ran ei weithredu a phryderon na chawsai fawr o effaith ar ymddygiad cwsmeriaid.

2.6 Yn 2001, cafodd y Llywodraeth gymeradwyaeth i gyflwyno ardoll ar yr ochr werthu. Er bod gwerthwyr yn cefnogi hyn yn gyffredinol, yr oedd pryderon ar y dechrau y gallai cwsmeriaid wrthod talu'r ardoll. Nid oedd y diwydiant plastigau yn Iwerddon yn ddigon o faint i achosi unrhyw anawsterau gwleidyddol o ganlyniad i gyflwyno ardoll.

### Cyflwyno'r ardoll bagiau siopa plastig

2.7 Cyflwynwyd yr ardoll bagiau siopa plastig drwy'r Waste Management (Amendment) Act 2001 (adran 9), a daeth i rym ar 4 Mawrth 2002. Cynyddodd yr ardoll o 15 y cant i 22 y cant fesul bag ar 1 Gorffennaf 2007, er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd bychan yn y defnydd o fagiau plastig. 22 y cant yw'r uchafswm y gellir ei godi fel ardoll o dan y ddeddfwriaeth bresennol yn Iwerddon. Mae cynnig i gynyddu'r swm y gellir ei godi yn cael ei ystyried ar hyn o bryd a disgwylir y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ym mis Hydref 2008.

2.8 Ategwyd cyflwyno'r ardoll gan ymgyrch gyhoeddusrwydd fawr, a chan addysg ac ymgyrch hyrwyddo mewn ysgolion.

### Gweithredu'r ardoll bagiau siopa plastig

2.9 Codir yr ardoll gan werthwyr pan mae cwsmeriaid yn talu am eu nwyddau ac yn cael bagiau siopa plastig. Diffinnir 'bag plastig' yn

adran 9(1)(a) y Waste Management (Amendment) Act 2001 fel bag "sydd wedi ei wneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol o blastig'. Mae hyn yn cynnwys unrhyw fag gyda haen blastig sgleiniog neu ddi-sglein arno. Yn ogystal, mae'r ardoll yn berthnasol i fagiau sydd â handlenni plastig. Yn fras, mae'r gwaharddiadau'n cynnwys:

Bagiau siopa wedi eu dylunio i'w hailddefnyddio, a werthir am 70 y cant neu fwy; a, bagiau llai a ddefnyddir i gynnwys

Cig, pysgod neu ddofednod ffres (mewn paced neu fel arall);

Ffrwythau a llysiau rhydd, cnau, melysion, cynnyrch llaeth a bwyd poeth neu oer sydd wedi ei goginio nad yw mewn pecyn fel arall.

2.10 Gan fod pwyslais gwrth ysbwriel cryf o ran yr ardoll ar fagiau plastig, nid oes gwahaniaeth rhwng bagiau plastig bioddiraddadwy a bagiau plastig eraill. Mae'r Adran yn dadlau bod bagiau bioddiraddadwy yn dal i gymryd cryn amser i ddiraddio ac, er y gallai fod yn ddewis gwell eu defnyddio, 'bydd bagiau o'r fath yn parhau i fod yn broblem weledol am gryn dipyn o amser lle cant eu taflu fel ysbwriel'.

### Dewisiadau amgen i ddefnyddio bagiau siopa plastig untro

2.11 Mae dewisiadau amgen i fagiau siopa plastig, megis bocsys a bagiau y gellir eu hailddefnyddio, ar gael mewn llawer o siopa yn Iwerddon. Yn y sector bwyd, mae bagiau plastig untro wedi cael eu cyfnewid â bagiau plastig hir oes y gellir eu hailddefnyddio neu fagiau siopa defnydd.

### Effaith yr ardoll

2.12 Clywodd y Pwyllgor fod yr ardoll wedi cael effaith sylweddol dros nos, drwy leihau'r defnydd blynyddol o fagiau plastig gan bob unigolyn o amcangyfrif o 328 i 21.

2.13 Canfyddodd arolwg amgylcheddol cenedlaethol, "Attitudes and Actions 2003", fod 91% o'r rheiny a gymerodd ran yn yr arolwg yn credu bod yr ardoll bagiau plastig yn syniad da. Rhoddwyd sawl rheswm am hyn, gan gynnwys y buddiannau amgylcheddol; lleihad yn y nifer o fagiau plastig a welir ar y stryd ac mewn coed; a pha mor gyfleus oedd defnyddio bagiau plastig y gellir eu defnyddio eto ar gyfer cario siopa. Dywedodd 6% o'r bobl a gymerodd ran yn yr arolwg nad oeddent yn credu bod yr ardoll yn syniad da, ar y sail eu bod wedi gweld eisiau cael bagiau plastig yn y ty a'u bod yn teimlo'n rhwystredig pan oeddent yn anghofio mynd â'r bagiau y gellir eu hailddefnyddio gyda hwy wrth siopa. Nid oedd gan y 4% yn weddill farn o ran y naill ddewis na'r llall. Nododd yr arolwg hefyd bod 90% o siopwyr yn defnyddio bagiau hir oes y gellid eu hailddefnyddio, bod 6% yn defnyddio bocsys cardfwrdd, bod 4% yn defnyddio bagiau plastig, a bod 1% yn defnyddio rhywbeth arall.

2.14 Mae'r Adran wedi amcangyfrif bod gostyngiad o dros 90% yn y defnydd o fagiau plastig a bod gostyngiad o fwy na 95% yn yr ysbwriel sy'n fagiau plastig.

2.15 Mae'r holl arian a gesglir drwy'r ardoll yn cael ei dalu i mewn i gronfa amgylcheddol. Mae neilltuo arian yn y ffordd hon yn anarferol yn Iwerddon ac mae wedi digwydd o ganlyniad i ymwneud personol y Gweinidog o ran negodi gyda'r Gweinidog Cyllid. Penderfynwyd bod neilltuo'r arian yn fwy derbyniol i gwsmeriaid os oedd cysylltiad penodol rhwng yr ardoll a'r amgylchedd a bod yr arian yn cael ei ddefnyddio at ddibenion sy'n ymwneud â'r amgylchedd yn unig.

2.16 Nodir y ffigurau ar gyfer ysbwriel sy'n fagiau plastig isod:

Cyn yr ardoll5%

Rhagfyr 20020.32%

Awst 20030.25%

Awst 20040.22%

Awst 20050.22%

2.17 Rheolir y Gronfa Amgylcheddol gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol. Telir yr arian o'r ardoll ar fagiau plastig a thirlenwi gwastraff i mewn i'r Gronfa, y gellir ei defnyddio ar gyfer ystod o ddibenion, megis cynlluniau lleihau neu atal gwastraff, gweithredu cynlluniau rheoli gwastraff, cynlluniau hyrwyddo ac addysg, a chynlluniau cymunedol.

### 3.Cyfarfod gyda'r Comisiynwyr Refeniw

3.1 Rhoddodd Michael Bambury, o Uned Ardoll Amgylcheddol y Comisiynwyr Refeniw Gwyddelig, amlinelliad byr o'u rôl o ran casglu'r ardoll.

3.2 Mae'r Comisiynwyr Refeniw yn gyfrifol am gasglu'r ardoll ac am sicrhau bod gwerthwyr yn ymwybodol o'u goblygiadau o ran gwneud datganiadau niferoedd. Cesglir yr ardoll gan werthwyr, ac mae gofyn iddynt anfon, ar sail chwarterol, ffurflen wedi'i chwblhau yn datgan y swm sy'n ddyledus a manylion eu cyfrifon banc.

3.3 Er mwyn lleihau'r costau cydymffurfio i werthwyr, cynhelir y camau gwirio, cyn belled a'i bod yn bosibl, ar y cyd gyda'r camau gwirio sy'n bodoli ar gyfer atebolrwydd trethi. Hysbysodd Mr Bambury yr Aelodau, er bod rhai cwmnïau nad ydynt yn rhai Gwyddelig yn amharod i gyflwyno ardoll ar gyfer eu cwsmeriaid i ddechrau, nid yw peidio â chydymffurfio'n broblem.

3.4 Mae sawl manwerthwr wedi dewis yr opsiwn o gyflwyno datganiadau niferoedd yn flynyddol er mwyn lleihau'r fiwrocratiaeth. Mae hyn yn galluogi'r Comisiynwyr Refeniw i ganolbwyntio ar werthwyr mwy sydd â mwy o ddatganiadau niferoedd a datganiadau uwch.

### 4.Trafodaethau o amgylch y bwrdd gydag awdurdodau lleol

4.1 Rhoddodd Peter Moffat o Adran Gwasanaethau Amgylcheddol Cyngor Sir De Ddulyn a Marese Feeney o Uned Rheoli Gwastraff Cyngor Dinas Dulyn amlinelliad o rôl awdurdodau lleol o ran gweithredu'r ardoll.

4.2 Mae awdurdodau lleol yn ganolog i weithredu'r ardoll, drwy sicrhau bod gwerthwyr yn cydymffurfio â gofynion y rheoliadau ardoll, drwy:

Ymweld â siopau a siarad gyda gwerthwyr;

Weithredu hapwiriadau cychwynnol;

Fonitro gweithredu'r ardoll;

Sicrhau y trosglwyddir yr ardoll yn llawn i gwsmeriaid;

Sicrhau na chamddefnyddir yr eithriadau;

Wirio tiliau i gadarnhau y codir tâl am fagiau plastig lle bo hynny'n berthnasol;

Gymryd y camau priodol pan gadarnheir nad yw'r ardoll wedi cael ei godi ar gwsmeriaid, e.e. anfon llythyr yn hysbysu'r gwerthwr o'r goblygiadau o dan y rheoliadau a chymryd camau pellach lle bo hynny'n angenrheidiol; ac

Ymdrin ag unrhyw gwynion gan y cyhoedd.

4.3 Mae awdurdodau lleol yn cyfuno ymweliadau am yr ardoll gydag ymweliadau gorfodaeth eraill i arbed arian ac amser. Dywedodd Ms Feeny wrth Aelodau: "o bersbectif gorfodi, yr oedd yn broses hawdd a di-boen cyflwyno ardoll yn Iwerddon", yn enwedig oherwydd natur benodol y ddeddfwriaeth.

4.4 Roedd cwsmeriaid wedi croesawu'r ardoll ac maent yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth am werthwyr nad ydynt wedi cydymffurfio â'r ardoll. Ymddengys fod yr ardoll wedi newid ymddygiad pobl o ran taflu ysbwriel ac ailgylchu.

4.5 Yr oedd nifer o esiamplau o beidio â chydymffurfio wedi digwydd yn dilyn cyflwyno'r ardoll, ond, ar y cyfan, bu gweithrediad yr ardoll yn foddhaol. Mae Cyngor Sir De Dulyn wedi llwyddo i erlyn gwerthwr mawr oedd wedi rhoi bag plastig am ddim i gwsmer oedd yn prynu cryno ddisg. Plediodd y gwerthwr yn euog a chafodd ddirwy ysbwriel. Roedd Cyngor Dinas Dulyn yn y broses o ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn gwerthwr yn y ddinas am beidio â chydymffurfio.

### 5.Cyfarfod gyda'r gwerthwyr

5.1Cyflwynodd Torlach Denihan o Retail Ireland, a'r Seneddwr Feargal Quinn, Arlywydd Superquinn, bersbectif y gwerthwyr ar yr ardoll.

5.2 Mae'n ofynnol i werthwyr drosglwyddo'r ardoll i'r cwsmer ac i restru'r ardoll ar unrhyw anfoneb, dderbynneb neu doced a gyflwynir i'r cwsmer. Mae'r gwerthwyr yn talu'r ardoll i'r Comisiynwyr Refeniw drwy ffurflenni datganiadau niferoedd. Cyfrifoldeb y gwerthwr hefyd yw sicrhau eu bod yn derbyn y manylion llawn ynghylch maint a deunydd y bagiau gan gyflenwyr, cyn eu prynu.

5.3 Eglurodd Mr Denihan nad yw'r ardoll ar fagiau'n broblem i werthwyr. Bu cyfnod hir rhwng ymrwymiad y Llywodraeth yn y lle cyntaf i archwilio ffyrdd o annog pobl i beidio â defnyddio bagiau plastig yn 1997 a chyflwyno'r ardoll yn 2002. Yn ystod y cyfnod hwn, bu gwerthwyr yn cymryd rhan yn y broses ymgynghori ar yr ardoll ac mewn trafodaethau ynghylch sut y gellid ei weithredu. Mae'r defnydd o'r prosesau sy'n bodoli gan y Comisiynwyr Refeniw wedi sicrhau nad yw gwerthwyr yn wynebu biwrocratiaeth ychwanegol.

5.4 Dadleuodd yr Arlywydd Quinn fod yr ardoll yn broffidiol i archfarchnadoedd, oherwydd nid oedd yn rhaid iddynt brynu bagiau plastig bellach a gallant wneud elw o werthu "bagiau gwyrdd". Yr oedd y gadwyn archfarchnadoedd Wyddelig, Superquinn, wedi treialu codi ychydig o sentiau am fag plastig ddeng mlynedd cyn cyflwyno'r ardoll, ond nid oedd llawer o gefnogaeth ar y pryd. Dadleuodd yr Arlywydd Quinn na fyddai cod gwirfoddol yn gweithio, oherwydd y gystadleuaeth o fewn y diwydiant.

5.5 Dr bod yr ardoll wedi cyflwyno dull ychwanegol y gallai lladron ei ddefnyddio, gwrthododd Mr Denihan yr honiadau fod nifer y lladradau wedi cynyddu o ganlyniad i'r ardoll.

5.6 Mae ymchwil yn 'The Irish plastic bag levy - A review of its performance 5 years on' yn awgrymu bod ymateb mwyafrif y prif rhanddeiliaid - y cyhoedd a'r diwydiant dillad - i'r ardoll wedi bod mor bositif nes ei fod yn ystyried y byddai'n niweidiol yn wleidyddol i gael gwared ohono.

### 6.Cyfarfod â Coastwatch

6.1Cyflwynodd Karin Dubsky o Coastwatch bersbectif amgylcheddol ar yr ardoll. Mae Coastwatch yn sefydliad ar gyfer Iwerddon gyfan nad yw'n rhan o'r llywodraeth, sy'n gwneud gwaith ymchwil ac arolygu gyda chymunedau lleol, yn rhedeg prosiectau addysg a gwaith maes dan arweiniad, ac yn rhoi cyngor amgylcheddol a chyfreithiol i grwpiau lleol.

6.2 Cyn cyflwyno'r ardoll, roedd Iwerddon yn un o'r gwledydd gwaethaf am ysbwriel yng ngogledd Ewrop. Roedd effaith niweidiol bagiau plastig ar fywyd gwyllt a'r arfordir wedi hybu Coastwatch i lobïo am ardoll bagiau plastig gyda chyswllt â chronfa amgylcheddol. Yr oedd Coastwatch yn fodlon bod y polisi wedi cael ei gynllunio a'i weithredu'n ofalus a bod amseru'r ardoll yn cyd-fynd â'r cynyddu mewn ymwybyddiaeth amgylcheddol. Gallai unigolion weld bod eu gweithredoedd, drwy'r ardoll, yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran taflu ysbwriel a daeth yn beth poblogaidd peidio cael bag plastig yn Iwerddon.

6.3 Awgrymodd Ms Dubsky na fyddai gwahardd bagiau plastig wedi cael yr un effaith ar newid ymddygiad â'r ardoll. Datganodd hefyd fod effeithiolrwydd yr ardoll wedi mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau'r gymuned amgylcheddol.